

Cariad

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Ioan 3: 16

EMYNAU

Yn ei gariad at yr annheilwng y gwelwn Dduw ar ei orau:

Os gofyn rhywun beth yw Duw,
atebwn ni mai cariad yw:
fe fflamiodd cariad Tri yn Un
yn rhyfedd at annheilwng ddyd.

Azariah Shadrach (*Caneuon Ffydd*: 171)

Ar Galfaria y gwelwyd penllanw cariad Duw at ddyd:

Dyma gariad fel y moroedd,
tosturiaethau fel y lli:
T'wysog bywyd pur yn marw,
marw i brynu'n bywyd ni.
Pwy all beidio â chofio amdano?
Pwy all beidio â thraethu'i glod?
Dyma gariad nad â'n angof
tra bo nefoedd wen yn bod.

Gwilym Hiraethog (*Caneuon Ffydd*: 205)

Cariad Duw yn Iesu Grist sy'n codi dyn ar ei draed a rhoi cyfle iddo brofi'r gorfoledd:

Dyma gariad, pwy a'i traetha?
Anchwiliadwy ydyw ef;
dyma gariad, i'w ddyfnderoedd

byth ni threiddia nef y nef;
 dyma gariad gwyd fy enaid
 uwch holl bethau gwael y llawr,
 dyma gariad wna im ganu
 yn y bythol wynfyd mawr.

Mary Owen (*Caneuon Ffydd*: 199)

Mae cariad bob amser yn golygu rhoi. Rhoi ei fab a wnaeth Duw:

Felly carodd Duw wrthrychau
 anhawddgara' erioed a fu,
 felly carodd, fel y rhoddodd
 annwyl Fab ei fynwes gu;
 nid arbedodd, ond traddododd
 ef dros ein pechodau i gyd:
 taro'r cyfaill, arbed gelyn,
 "Felly carodd Duw y byd."

Gwilym Hiraethog (*Caneuon Ffydd*: 204)

Mae'r ansoddeiriau'n pallu wrth geisio crynhoi dy gariad tuag atom:

Erioed ni phrofais gariad fel dy gariad tyner di,
 mor anhunanol, hael a hawddgar, hyfryd iawn a chu;
 mae'n gariad annherfynol, yn ddwfn fel y môr,
 mae'n llawn o ryfeddodau, a chyfoeth yn ei stôr.

Susan Williams (*Caneuon Ffydd*: 229)

Cariad ydi sylfaen pob ymdrech i wneud byd gwell:

Dy gread maith mewn gwewyr sydd
 yn disgwyl gwawr y newydd ddydd
 pan fyddo cariad wrth y llyw
 a phawb mewn cariad yn cyd-fyw;
 drwy wyrth dy ras, O gwna ni'n un
 a'n creu o newydd ar dy lun.

Tudor Davies (*Caneuon Ffydd*: 775)

GWEDDIAU

Man cychwyn ein hadnabyddiaeth o Dduw yw ‘Duw cariad yw’:

O! Dduw ein Tad, clywsom pan oeddem yn ifanc iawn yr adnod ‘Duw cariad yw’. Prin y buasem wedi cymryd unrhyw sylw ohoni, oni bai am gariad y rhai a’i dysgodd inni. Diolchwn i ti amdanynt, ac am i ni gael cipolwng ar dy gariad trwyddynt hwy. Wrth i ni dyfu daethom i ddeall ystyr cariad, a’i fod yn golygu gofal, a gofalu.

Molwn di am dy gariad tuag atom, am dy ofal amdanom. Molwn di am i ti ein caru’n ddiwahân gan beri i’r haul godi ar y drwg a’r da ac i’r glaw ddisgyn ar y cyfiawn a’r anghyfiawn. Diolchwn i ti am ewyllysio’r gorau i bawb bob amser. Amen.

Eric Jones

Mae’n cariad ni yn wahanol iawn i dy gariad di:

Cyffeswn, O! Dduw ein Tad, gyda llawer iawn o gywilydd, er i ti ein caru yn y fath fodd, fod ein cariad ni’n wahanol iawn i’th gariad di. Mae ein cariad ni’n gwahaniaethu rhwng hwn ac arall; nid ydym yn medru ewyllysio’r gorau i bawb. O! Dad, maddau i ni. Mae ein cariad ni’n mynnu’n harbed ni o hyd; mae’n hunanol, ac ni allwn ei rannu a rhoi fel y gwnaethost ti. O! Dad, maddau i ni. Mae ein cariad yn medru troi’n ôl; byddwn mor aml yn methu caru hyd yr eithaf. O! Dad, maddau i ni. Mae ein cariad mor gyfnewidiol; bydd weithiau’n gynnes ac yna mor oer, byddwn weithiau’n gryf ac yna’n wan. O! Dad, maddau i ni. Amen.

Eric Jones

Er mwyn creu byd gwell mae’n rhaid i ni efelychu dy gariad di:

Planna, O! Dduw, dy Ysbryd o’n mewn er mwyn cael gwell byd, lle y gall dynion gyd-fyw’n gytûn mewn harmoni a heddwch. Helpa ni, O! Dad, i ddangos trwy gariad ein bod yn barod i ‘oddef i’r eithaf, i gredu i’r eithaf, i obeithio i’r eithaf ac i ddal ati i’r eithaf’, er mwyn ein gilydd ac er clod i ti. Amen.

Eric Williams

Cariad a barodd i ti greu dyn a'i osod mewn byd o amrywiaeth, a rhoddaist enghraifft i ni o'th gariad yn Iesu Grist:

Yn dy gariad y creaiſt ddyn ar dy lun a'th ddelw dy hun
a gwneud byd yn llawn cyfoeth ac amrywiaeth ar ei gyfer.

Yn dy gariad daethost yn agos iawn atom
yn dy Fab, Iesu Grist,
gan ddangos dy hun yn Dad tyner a graslon.

Yn ei dosturi ef,
yn ymgeleddu'r gwan,
yn cysuro'r anghenus
ac yn iacháu'r cystuddiol,
dysgodd i ni wir ystyr cariad.

Yn ei unigrwydd a'i ddiodefaint,
yn ing ac angau'r groes,
datguddiodd i ni ddyfnder a dirgelwch y cariad dwyfol. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

Dysg i ni garu fel yr wyt ti wedi'n caru:

O Arglwydd, dyro imi garu â'm holl galon, ac â'm holl feddwl ac â'm holl enaid, a charu fy nghymydog er dy fwyn di, fel y trigo ynof gariad brawdol, a marw ynof bob cenfigen a gerwinder a drwg ewyllys. Llanw 'nghalon â meddyliau o gariad a thangnefedd a thosturi, a thrwy geisio llawenydd a daioni eraill a chydymdeimlo â hwy yn eu gofidiau a'u treialon, a bwrw ymaith bob annhegwch a beirniadaeth lem, dy ddilyn di sydd yn gywir ac yn berffaith. Amen.

Lewis Valentine

ADNODAU

Crynohir yr holl athrawiaeth Gristnogol yn y cymal hwn:

Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau.

1 Ioan 4: 16(b)

Wrth i ni gadw gorchmynion Duw byddwn wedyn yn aros yn ei gariad:

Os cadwch fy ngorchmynion fe arhoswch yn fy nghariad, yn union fel yr wyf fi wedi cadw gorchmynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef.

Ioan 15: 10

Os ydym angen prawf o gariad Duw tuag at bechaduriaid edrychwn ar groes Crist:

Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.

Rhufeiniaid 5: 8

Yn y geiriau hyn gosodwyd nod aruchel i blant y deyrnas:

Ond rwyf fi'n dweud wrthyich: carwch eich gelynyon, a gweddiwch dros y rhai sy'n eich erlid.

Mathew 5: 44

Y mae cariad yn dal ati, yn gymwynasgar ac yn parhau i'r diwedd:

Y mae cariad yn amyneddgar; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw cariad yn cenfigennu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyddo.

1 Corinthiaid 13: 4

Un o ffrwythau'r Ysbryd yw cariad:

Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth.

Galatiaid 5: 22

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Bydd y dyn tlotaf yn y byd yn gyfoethog os bydd ganddo gariad yn ei galon.

Mae cariad yn lledrithiol. Mae'n iaith y gall y byddar ei chlywed, yn gân y gall y cloff ddawnsio iddi ac yn fachlud y gall y dall ei weld.

Mi fedrwch chi roi heb garu ond fedrwch chi ddim caru heb roi.

Ni all cariad wneud digon heb wneud mwy na digon.

Cariad yw'r unig allu sy'n uno heb ddinistrio.

Teilhard de Chardin

Pan ystyriwn gariad Duw yng Nghrist, yr ydym fel un yn nesáu at y cefnfor; y mae'n taflu golwg ar yr wyneb, ond ni all ddirnad y dyfnder.

Robert C. Chapman